

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Croeso nôl

Gobeithwn i chi fwynhau'r gwyliau haf a bod dychwelyd i'r ysgol heddiw wedi bod yn brofiad hwylus i bawb.

Cymreictod – Diolch am ddewis Ysgol Gymraeg Aberystwyth ar gyfer addysg eich plentyn, hon oedd yr ysgol Gymraeg gyntaf yng Nghymru. Mae'n ysgol Gymraeg benodedig, yr unig un yn Aberystwyth ac rydym yn awyddus i sicrhau fod yna awyrgylch Gymreig gref yn weithredol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Rydym yn dathlu'r ffaith fod gennym ddisgyblion sy'n dod o amrywiaeth o gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol sy'n datblygu i fod yn unigolion dwyieithog hyderus. Weithiau yn dilyn gwyliau hir mae rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd i droi at yr iaith Gymraeg yn naturiol. Ar ddechrau'r tymor newydd mi fyddwn yn disgwyl fod pob disgybl yn gwneud ymdrech arbennig yn ôl eu hoed a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, yn enwedig yn ystod amser chwarae.

Parchu ein gilydd – Rydym eisiau i bob plentyn deimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu fod angen i bawb ddangos parch a sensitifrwydd tuag at bob aelod o gymuned yr ysgol. Os oes rhywbeth yn digwydd sy'n effeithio ar hyn yna mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'r ysgol ar unwaith. Mae gan yr ysgol bolisi gwrth fwlio cadarn sy'n pwysleisio'r angen i ddangos parch at ein gilydd.

Gwneud ein gorau glas – Un o brif nodau'r ysgol yw sicrhau fod pawb yn gwneud eu gorau glas ac yn cyrraedd eu potensial yn gymdeithasol ac yn addysgol. Mae dechrau tymor newydd yn amser ardderchog i dorchi llewys ac i osod disgwyliadau uchel o safbwynt pob agwedd o fywyd yr ysgol.

Diogelwch - Hoffwn atgoffa rhieni a gwarcheidwaid (heblaw'r Meithrin) i aros tu allan i'r ffens / gât tan fod y plant yn cael eu rhyddhau ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Cyfyngir parcio tu allan i fynedfa'r ysgol i fysiau, tacsis ac anabl yn unig. Ni chaniateir i rieni barcio ym maes parcio'r staff. Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant.

Gyrrwch yn ofalus ac yn bwyllog ger yr ysgol a pheidiwch parcio mewn llefydd sy'n atal llif y drafnidiaeth!

Mae cerdded, beicio, rhannu ceir neu defnyddio'r maes parcio ger adeilad Mudiad yr Ysgolion Meithrin yn ffyrdd o leihau'r drafnidiaeth ger yr ysgol. Gofynnir am eich cydweithrediad llawn gyda'r mater hwn.

Cyrraedd yr ysgol ar amser – Mae'n ofynnol arnom i gadw cofnod o blant sydd yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr yn gyson. Gwnewch bob ymdrech i sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 9 o'r gloch ac yn cael ei gasglu yn brydlon ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Absenoldeb – os fydd eich plentyn yn absennol mae angen :

1. Cysylltu â'r ysgol i ddweud na fydd eich plentyn yn yr ysgol (galwad ffôn neu e-bost cyn 9.00)
2. Ysgrifennu nodyn i athro / athrawes eich plentyn yn nodi'r rheswm am yr absenoldeb (danfonwch y nodyn gyda'ch plentyn pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol)

Taflen Casglu data – mae'n bwysig iawn eich bod yn cwblhau'r ffurflen a'i dychwelyd i'r ysgol yfory. Os nad ydych eisoes yn derbyn negeseuon e-bost trwy ParentMail mae angen i chi gasglu ffurflen gofrestru oddi wrth Mrs Wendy James.

Clwb Brecwast – mae'r clwb yn cychwyn am 8.15 ac yn gorffen am 8.45. Peidiwch cyrraedd cyn 8.15 os gwelwch yn dda

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
swyddfa@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Cynorthwyo'r ysgol – Criw Caib a Rhaw - Rydym yn awyddus i ddatblygu criw o rieni / gwarcheidwaid / ffrindiau fydd yn medru cynorthwyo'n ymarferol gyda gweithgareddau megis garddio / datblygu ardal allanol yr ysgol. Mae tipyn o waith i'w wneud yn yr ardd drwy gydol y flwyddyn ac fe hoffwn drefnu fod yna griw yn cwrdd o leiaf unwaith y mis i fwrw mlaen â'r gwaith (o bosib am ryw awr ar ôl ysgol) rhwch wybod os ydych yn medru cynorthwyo. Mi fydd y weithgaredd gyntaf sef datblygu a thacluso'r ardd yn digwydd ar brynhawn ddydd Mercher, Medi'r 14eg, 3.30 – 4.30

Agoriad swyddogol Llong Ned – Diolch am eich cyfraniadau ar gyfer datblygu'r llong môr ladron er cof am Ned Jones. Mi fyddwn yn cynnal achlysur byr yn yr ysgol am 3.45 ar ddydd Iau, Medi'r 8fed er mwyn agor Llong Ned yn swyddogol. Mi fydd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn darparu paned a chacen. Croeso cynnes i bawb.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Mr R C Williams
Pennaeth 03/09/2016

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Pennaeth / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Welcome back

We hope you enjoyed the summer holidays and that returning to school was a positive experience for everybody.

Welsh Ethos - Thank you for choosing Ysgol Gymraeg Aberystwyth for your child's education, this was the first Welsh school in Wales. It is a designated Welsh school, the only one in Aberystwyth and we are keen to ensure that a strong Welsh atmosphere exists in every aspect of school life. We celebrate the fact that we have pupils who come from a variety of cultural and linguistic backgrounds and who are developing as confident bilingual individuals. On occasions especially following a long holiday some pupils find it difficult to use their Welsh confidently. At the beginning of the new term we will expect all pupils to make a special effort to use their Welsh according to their ability and age in every aspect of school life, especially during play time.

Respecting each other – We want to ensure that all pupils feel safe and happy at school. This means that everyone should show respect and sensitivity to all members of the school community. If something happens that effects this then it is very important that you inform the school immediately. The school has a strong anti-bullying policy which emphasizes the need to respect others.

Doing your very best – One of the main aims of the school is to ensure that all pupils try their very best at school both socially and educationally. The start of a new term is an excellent opportunity to work hard and to set very high expectations regarding all aspects of school life.

Safety – Parents and guardians (apart from Meithrin) are reminded to remain outside the fence / gate until pupils are released. Parking outside the main entrance has been set aside for buses, taxis and disabled only. Parents are not allowed to park in the staff car park. We ask for everyone's co-operation in this respect for the safety of the children.

Please drive safely and slowly near the school and don't park in areas that block the flow of traffic.

Walking, cycling, sharing a car or using the car park by the Mudiad Ysgolion Meithrin are ways of reducing traffic near the school. Your co-operation is needed with this matter.

Arriving at school on time – as a school we have to keep a note of pupils who are continually arriving late to school. Please make every effort to ensure that your child arrives at school before 9 o'clock and is collected promptly at the end of the school day.

Absent from school – if your child is absent from school you need to:

1. Inform the school before 9 o'clock that your child will be absent (telephone or e-mail)
2. Write a note to your child's teacher explaining the reason for the absence (send the letter to school with your child when he / she returns to school)

Data Form – it is important that you complete the form and return it to school tomorrow. If you do not receive information from the school through e-mails provided by ParentMail, please ask Mrs Wendy James for a form.

Breakfast Club – the club opens at 8.15 and finishes at 8.45. Please do not bring your children before 8.15.

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel*: 01970 617613 Ffacs / *Fax*: 01970 636742

Pennaeth / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

Helping the school - Criw Caib a Rhaw - We are keen to develop a group of parents/ guardians / friends who would be able to help the school with practical activities like gardening and other out-door activities. There is quite a lot of work to do in the garden and I would like to arrange that a group would meet around once a month to carry on with the work (possibly for an hour after school) please let me know if you are able to help. The first activity would be to improve and tidy the garden on Wednesday, September 14th 3.30 – 4.30.

Official opening of Llong Ned – Thank you for your contributions towards developing the pirate ship in remembrance of Ned Jones. We will be holding a short ceremony at the school at 3.45 on Thursday, September 8th to officially open Llong Ned. The PTA will prepare tea and cakes – Everyone is welcome.

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

Mr R C Williams

Headteacher 03/09/2015